

CYNGOR SIR YNYS MÔN / THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
ADRODDIAD I / REPORT TO	PWYLLGOR GWAITH / THE EXECUTIVE
DYDDIAD / DATE:	7 MEDI/SEPTEMBER 2010
PWNC / SUBJECT:	ADRODDIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2009/10 / ANNUAL REPORT ON TREASURY MANAGEMENT FOR FINANCIAL YEAR 2009/10
DEILYDD(ION) PORTFFOLIO / PORTFOLIO HOLDER(S):	CYNG/CLLR TOM JONES
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL / LEAD OFFICER(S):	CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)/CORPORATE DIRECTOR (FINANCE)
SWYDDOG CYSWLLT / CONTACT OFFICER:	DAVID ELIS-WILLIAMS (Ffôn/Tel:2601)

<p>1. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith / Reason/s why a decision required from the Executive</p> <p>Monitro Cyllidol/ Financial Monitoring.</p>
<p>2. Crynodeb o'r adroddiad / Report summary</p> <p>Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys ar gyfer 2009/10 sy'n adolygu cydymffurfiaeth gyda'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ac yn adrodd ar fenthycyca a pherfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn. /</p> <p>Annual Report on Treasury Management activities for 2009/10 which reviews compliance with the Treasury Management Strategy and reports on borrowing and investment performance during the year.</p>
<p>3. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau / Recommendation/s and reasons</p> <p>Anfon ymlaen i'r Cyngor Sir a'r Pwyllgor Archwilio yn gyson gyda phenderfyniad y Cyngor Sir. /</p> <p>Forward the report to the County Council and the Audit Committee consistent with the Council's decision.</p>

4. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod / Other options and reason/s for rejection

N/a - Angen i gydymffurfio a phenderfyniad blaenorol y Cyngor Sir.

Required to comply with previous decision of County Council.

5. Ymgynghori / Consultation

- | | | | | | | | |
|-----|---|-------------------------------------|--------|--------------------------|----------|-------------------------------------|----------------|
| 5.1 | Cyllid/Adran 151
Finance/Section 151 | <input checked="" type="checkbox"/> | do/yes | <input type="checkbox"/> | naddo/no | | |
| 5.2 | Swyddog Cyfreithiol/Monitro
Legal/Monitoring Officer | <input checked="" type="checkbox"/> | do/yes | <input type="checkbox"/> | naddo/no | | |
| 5.3 | Adnoddau Dynol
Human Resources | <input type="checkbox"/> | do/yes | <input type="checkbox"/> | naddo/no | <input checked="" type="checkbox"/> | amherth
n/a |
| 5.4 | Gwasanaethau Eiddo
Property Services | <input type="checkbox"/> | do/yes | <input type="checkbox"/> | naddo/no | <input checked="" type="checkbox"/> | amherth
n/a |
| 5.5 | Rhai eraill yr
ymgynghorwyd â nhw (yn
cynnwys Aelodau)
Others consulted (including
Members) | | | | | | |

6. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi / Any Policy Framework issues

Dim yn berthnasol/
N/a

7. Papurau cefndirol / Background papers

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Côt Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan ddilyn y Côt Ymarfer yma, a'r Datganiad ar Bolisi Rheoli'r Trysorlys a fabwysiadwyd gan y Cyngor dan y Côt, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Hwn yw'r adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2009/10 ac mae'n adolygu cydymffurfiaeth â'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac yn adrodd ar berfformiad buddsoddiadau a benthyciadau yn ystod y flwyddyn. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor erbyn 30 Medi. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r adroddiad hefyd gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio.
- 1.2 Dan y Côt Pwylllog mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol bennu Dangosyddion Pwylllog i fenthycu a buddsoddi ymhlith ffactorau eraill yn flynyddol. Cadarnhawyd y terfynau ar gyfer 2009/10 gan y Cyngor ar Mawrth 4ydd 2009 a rhoddir y perfformiad yn erbyn y terfynau hyn. Hefyd diweddarwyd y rhestr gwrthbartion cydnabyddedig.
- 1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth gymharol yn deillio o Ystadegau Cipfa a Chlybiau Meincnodi.

2. Y SEFYLLFA ECONOMAIDD

- 2.1 Cynhaliwyd gweithgaredd Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn erbyn cefndir o gynnwrf economaidd a thrybini parhaus yn y sector bancio. Rwy'n cyfeirio at y cefndir economaidd yn Atodiad 1 ac ym mhob un o'r cymalau perthnasol isod.
- 2.2 2008/09 oedd y flwyddyn pan leihawyd y Raddfa Sail heb gynsail ac mewn modd nad ellid fyth fod wedi ei ragweld ar ddechrau'r flwyddyn. Dyma'r flwyddyn hefyd pan fethodd rhai o fanciau Gwlad yr Iâ gan effeithio adneuron rhai awdurdodau lleol, gan effeithio ar enw da'r ddau ochr am byth, a newid dull gweinyddu Rheolaeth Trysorlys yn sylfaenol - er yn y pen draw cafodd y cwmp mewn graddfeydd llog llawer mwy o effaith ar gyfanswm yr awdurdodau lleol na chafodd colledion Gwlad yr Iâ. Roedd y llynedd yn fwy sefydlog, ond roedd yr adferiad yn llawer arafach nag a dybiwyd ar y cychwyn gan y marchnadoedd. Roedd yna batrwm o adolygiadau oedd yn ymestyn y cyfnod adfer: yn Chwefror 2009 roedd disgwyl y byddai'r Raddfa Sail yn dechrau codi yn chwarter 2 2010 nes cyrraedd 4% erbyn chwarter cyntaf 2012 - erbyn hyn y rhagamcan yw y bydd cynnydd yn dechrau yn chwarter 2 2011 ac na fydd yn cyrraedd 4% tan ar ôl 2014.

3. PORTFFOLIO CYFREDOL

- 3.1 Mae'r ffigurau benthycu a buddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:-

	31 MAWRTH 2009			31 MAWRTH 2010		
	£000	%	Oes	£000	%	Oes
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus - sefydlog (PWLb)	90,122	5.56	32.1 bl	97,615	5.40	29.5 bl
Buddsoddiadau	17,500	3.40		15,000	2.88	
Adneuron (dim rhybudd)	8,525	0.80		7,575	0.80	
Sefyllfa Net	64,097	-	-	75,040	-	-

Rhoddir gwybodaeth amdanynt yn mantolen y Cyngor ar "werth teg": gweler Atodiad 2.

- 3.2** Mae hyd y benthyciadau PWLB ar gyfartaledd yn 29.5 mlynedd (32.1 mlynedd yn 2009). Mae'n debyg y bydd yr Angen Benthycia yn cynyddu gan hyd at £20m dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o ganlyniad i fenthycia digefnogaeth ar gyfer uwchraddio'r stoc dai, yn amodol ar newidiadau i bolisiau a phenderfyniadau Trysorlys y DU.
- 3.3** Mae'r tueddiad tuag at raddfeydd llog sefydlog is yn y portffolio benthyciadau wedi parhau eleni, oherwydd cymryd y benthyciadau newydd ar raddfeydd sylweddol is na chyfartaledd y raddfa ar y portffolio. Mae'r trafodion hyn wedi lleihau cyfartaledd hyd y portffolio hefyd.
- 3.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuon heb rybudd sy'n talu llog ar raddfeydd yn agos at y raddfa sail ar y pryd (£7.6m, £8.5m yn 2009). Yng nghyswllt gweddill yr adneuon, roedd £15m yn cael eu dal am gyfnodau hyd at 364 diwrnod ar raddfa 1% i 6.55% (£12.5m @ 2.12% i 2.15% yn 2009). Nid oedd yr un buddsoddiad dros 364 diwrnod (un o £5m ar 6.55% yn 2009).

4. TRAFODION BENTHYCA A'R PERFFORMIAD YN ERBYN Y STRATEGAETH

- 4.1 Trafodion Benthycia :** Gwnaed dau o drafodion benthycia tymor hir yn ystod y flwyddyn - gweler paragraff 5.2:-

Dyddiad	Swm	Hyd at	Cyfradd
20/08/2009	£5.0m	16/1/2019	3.72%
13/10/2009	£2.5m	6/6/2017	3.25%

- 4.2** Roedd ein strategaeth trysorlys am 2009/10, strategaeth a fabwysiadwyd ym Mawrth 2009, yn seiliedig ar ein tyb bod yna ddirywiad byd eang oedd yn gwaethygu ac a fyddai'n gofyn am dorri cyfraddau'r banc canolog i'r cyfraddau isaf a fu erioed yn hanesyddol, ac a allai fod angen gweithredu pellach gan fanciau canolog i atal y dirywiad yn yr economïau.

Roedd disgwyl i'r Raddfa Sail barhau i ddisgyn, a chyrraedd 0.5% ym Mawrth 2009 ac yna aros ar hynny trwy gydol 2009/10 cyn dechrau codi ar ôl ail chwarter 2010. Fodd bynnag roedd yna risg i'r rhagolwg hwn pebai'r dirwasgiad yn profi i fod yn ddyfnach ac yn hirach na'r disgwyl ar yr amser; byddai hyn yn golygu y byddai'r codiad cyntaf yn y Raddfa Sail yn cael ei oedi.

Felly ar ddechrau'r flwyddyn, roedd disgwyl i effaith y cyfraddau llog ar y Deyrnas Unedig fod fel a ganlyn:-

Graddfeydd llog tymor byr - Roedd y farn "gyfartalog" o'r Ddinas yn rhagweld y byddai'r Graddfa Sail yn disgyn i 0.5% ac yn parhau yno ar ddiwedd 2009 oherwydd graddfa'r dirwasgiad cyn dechrau codi yn ôl tuag at lefelau mwy normal yn 2010, er y byddai'n 2012 cyn y byddai'r Raddfa Sail yn dychwelyd i tua 4%.

Graddfeydd llog tymor hirach – Y farn ar raddfeydd llog sefydlog tymor hirach, 50 mlynedd, oedd y byddent yn parhau yn ddisymud o ddeutu 3.90% i 3.95% yn ystod 2009/10 gyda'r graddfa 25 mlynedd o gwmpas 10 – 15 pwynt seiliol (bps) yn uwch.

Y Strategaeth Trysorlys a fabwysiadwyd - ar sail y rhagolwg uchod, y brif strategaethau oedd:

- I awdurdodau oedd yn dymuno canolbwyntio ar y benthyciadau PWLB rhataf, byddai'r graddfeydd o dan 10 mlynedd yn darparu graddfeydd sylweddol rhatach na benthycia tymor hir. Roedd disgwyl hefyd i graddfeydd o dan 5 mlynedd fod yn sylweddol lai na graddfeydd 5-10 mlynedd. Roedd disgwyl y byddai'r graddfeydd ychydig yn is o ganol i ddiwedd y flwyddyn nag ar ddechrau'r flwyddyn ac felly fe allai fod yn fwy manteisiol i fenthycia'n hwyrach yn y flwyddyn.
- Ar gyfer awdurdodau oedd yn dymuno cloi i mewn i graddfeydd hanesyddol tymor hir isel, y disgwyl oedd na fyddai ond ychydig o wahaniaeth rhwng graddfeydd 25 mlynedd a 50 mlynedd. Fodd bynnag, er gwaethaf y graddfeydd benthycia newydd ychydig yn ddrytach oedd yn cael eu disgwyl yn y cyfnod 25 - 30 mlynedd yn hwyrach yn y flwyddyn, fe ellid gweld y rhain fel rhai oedd yn llawer mwy deniadol na benthycia 50 mlynedd oherwydd bod yr amrediad rhwng y benthyciad PWLB newydd a graddfeydd talu'n ôl yn fuan yn sylweddol is. Byddai hyn wedyn yn rhoi mwy o gyfle i ail drefnu'r ddyled o bosibl yn nes ymlaen trwy leihau'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd.
- Byddai'r strategaeth hon hefyd yn golygu – ar ôl rhai blynyddoedd o ganolbwyntio ar fenthycia ar gyfnod o 50 mlynedd neu yn agos at hynny - y byddai awdurdodau lleol yn gallu benthycia mewn cyfnod cwbl wahanol tra'n sicrhau ystod gwell yn eu proffil aeddfedu dyled.
- Wedi'i raddfeydd tymor hir PWLB ddisgyn yn ôl i'r raddfa rhagolwg canolog o tua 3.95%, fe ellid benthycia ar unrhyw amser yn y flwyddyn ariannol. Felly i bwrpas ystyried benthyciadau tymor hir graddfeydd sefydlog newydd y sbardun priodol fyddai 3.95%. Byddai graddfa'r rhagolwg canolog yn gallu cael eu hadolygu yng ngoleuni symudiadau yn y cynnyrch, a'r gwahaniaeth rhwng benthycia newydd PWLB a graddfeydd talu'n fuan, ac unrhyw newidiadau arall y gall PWLB eu cyflwyno i'w polisi a'u gweithgareddau benthycia.
- Byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i fenthycia benthyciadau'r farchnad graddfeydd sefydlog ar sail 25-50 pwynt islaw graddfa target PWLB pe byddent yn dod ar gael unwaith yn rhagor.

Yn erbyn y cefndir hwn, cymerwyd gofal gyda materion trysorlys yn 2009/10. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn parhau i fonitro'r farchnad graddfeydd llog a mabwysiadu polisi pragmataidd fel roedd y sefyllfa yn newid.

- 4.3** Dangosir y dylanwadau economaidd a'r cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn yn Atodiad 1 a 3. Dengys yr atodiad fod yr holl fenthycia graddfa sefydlog ar 3.72% dros 9 mlynedd a 3.25% dros 8 mlynedd wedi ei gymryd o fewn amrediad priodol o raddfeydd. Mae graddfeydd cyfartalog yn erbyn awdurdodau lleol eraill hyd at 2008/09 yn ymddangos yn Atodiad 4. Mae cymariaethau a gafwyd gan y clwb meincnodi yn ymddangos yn Atodiad 5. Yn gyffredinol, llwyddwyd i fenthycia o'r newydd ar raddfeydd cymharol isel ac er ein bod yn dal i fyny gyda'r perfformwyr gwell, mae graddfa gyfartalog y portffolio yn parhau yn uwch na'r graddfeydd cyfartalog ar draws yr awdurdodau lleol.

5. GWEITHGAREDD AD-DREFNU DYLED

- 5.1** Fe ddechreuodd 2009/10 gyda'n cyngorwyr yn disgwyl y byddai graddfeydd tymor hirach PWLB yn codi yn raddol yn ystod y flwyddyn ac y byddai graddfeydd tymor byrrach yn llawer rhatach. Ond, byddai symud o ddyled tymor hir i ddyled tymor byr yn golygu y byddai yna fwy o risg y byddai'n rhaid ail fenthycu ar dymor hirach mewn blynyddoedd i ddod ar raddfeydd llawer uwch na'r mwyafrif o'r ddyled tymor hir sydd ar hyn o bryd yn y portffolio dyled. Gellir sicrhau arbedion tymor byr trwy gyllido gwariant cyfalaf newydd yn fewnol a newid dyled sy'n aeddfedu trwy redeg y balansau ariannol presennol i lawr, sef rhai oedd ond yn ennill graddfeydd llog bychan oherwydd y ffaith bod y Raddfa Sail wedi'i chadw ar 0.5% drwy'r flwyddyn. Roedd rhedeg balansau ariannol i lawr hefyd yn golygu llai o risg gwrthbarti ar y portffolio buddsoddi.
- 5.2** Roeddem o'r farn bod manteision yn parhau o allanoli benthyca ac y gellid rheoli'r risg o gario buddsoddiadau allanol. Ni wnaed unrhyw weithgaredd ad-drefnu yn ystod y flwyddyn.
- 5.3** Ar Dachwedd 1af 2007, cyflwynodd PWLB ddwy raddfa i bob cyfnod, un ar gyfer benthyca newydd, a'r llall ar lefel sylweddol is, ar gyfer ad-dalu buan. Roedd amrediad y gwahaniaeth rhwng y ddwy raddfa yn 26 pwynt sail yn y tymor byr i dros 40 pwynt sail yn y tymor hir. Cyflwynwyd newidiadau dyddiol o 1 pwynt sail yn lle 5 pwynt sail a graddfeydd fesul cyfnod hanner blwyddyn lle'r arferant fod yn 5 mlynedd ar y cyfan. Effaith y newidiadau hyn oedd atal y Cyngor rhag ailstrwythuro'r portffolio i mewn i fenthyciadau PWLB newydd mewn dull wedi ei drefnu yn ystod y flwyddyn.

6. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

- 6.1** Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweinyddu ei fuddsoddiadau yn fewnol ac yn buddsoddi gyda gwrth-bartiön ar y rhestr buddsoddi gydnabyddedig ac am gyfnodau hyd at 5 mlynedd. Ar gyfartaledd buddsoddwyd £36.8m yn ystod y flwyddyn gan greu llog o 2.0% ar gyfartaledd, a hynny yn erbyn meincnod 0.42% (Graddfa 7 Diwrnod LIBID heb ei gompowndio), gyda graddfa sail ar gyfartaledd yn 0.5%. Roedd y dychweliadau fel ar ddiwrnod ola'r flwyddyn wedi disgyn i 2.18%.
- 6.2** Mae'r Polisi Rheoli Trysorlys yn caniatáu buddsoddi o hyd at £15m am gyfnodau hirach (dros 364 diwrnod) i hwyluso diogelwch a gwell enillion. Ym Mehefin 2008 buddsoddwyd £5m am ddwy flynedd ar 6.55% gydag un o brif fanciau'r DU. Profodd hyn yn werth da yng ngoleuni'r cwmp yn y marchnadoedd dim ond pedwar mis yn ddiweddarach, ond mae hwn wedi aeddfedu erbyn hyn. Roedd y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn yn bennaf ar alw. Fe wnaethpwyd 5 buddsoddiad ar £5m yr un yn y cyfnodau 3 mis; 6 mis; 9 mis; 1 flwyddyn. Effaith hyn oedd bod yr holl fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2010 yn mynd i aeddfedu o fewn 3 mis i ddiwedd y flwyddyn, ar wahân i un haen o £5m yn aeddfedu ym Mawrth 2011.
- 6.3** Mae graddfeydd ar gyfartaledd a dderbyniwyd yn 2008/09 mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill yn Atodiad 6. Mae canlyniadau gweithgaredd meincnodi yn 2009/10 yn Atodiad 7 yn dangos fod dychweliadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn well na'r cyfartaledd oherwydd bod un buddsoddiad yn dal i redeg ar 6.55%. Er hynny roedd y perfformiad da yn y meysydd hyn yn unigol dim ond bron yn ddigon i oresgyn effaith cael dim ond canran bychan o'n portffolio fel adneuron tymor hir ac ar y cyfan roedd ein gorberfformiad yn erbyn aelodau eraill ym meincnodi yn ychydig llai na 0.1% (cyn ystyried asedau wedi eu hamharu).

Ar ddadansoddiad fesul mis, mae dychweliad y Cyngor yn bur gymysg mewn perthynas â'r cyfartaledd ym mhob mis. Yn ystod mis Mawrth 2009 roedd ein perfformiad yn 0.85% yn llai na'r cyfartaledd, ac 0.73% yn llai yn Ebrill 2009. Roedd hyn o ganlyniad i broffil aeddfedu adneuoŷ tymor sefydlog. Ar ôl mis Ebrill, fe wnaeth perfformiad mewn perthynas â'r cyfartaledd wella i orberfformiad 0.80% cyn diweddur flwyddyn ar 0.44% yn uwch na'r cyfartaledd. Dylid nodi bod rhai o'r awdurdodau yn y gŵp meincnodi yn parhau i fod mewn sefyllfaoedd o wrthod unrhyw risg.

7. DIOGELWCH A SAFON CREDYD

- 7.1** Ni chafodd unrhyw sefydliad yr oeddem wedi buddsoddi ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau na llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.
- 7.2** Yn ystod 2008/09, dirywiodd y graddfeydd credyd ar draws ein gwrthbartion arferol, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r cymdeithasau adeiladu. Ar ôl mis Hydref 2008 daeth yn gynyddol anodd gosod adneuoŷ gyda gwrthbartion priodol. Yn Rhagfyr 2008, derbyniais awdurdod y Cyngor i ymestyn hyblygrwydd gwrthbartion i ddelio â'r newidiadau yn y marchnadoedd - gan gynnwys y gallu i fuddsoddi ein holl arian sbâr gyda llywodraeth ganol petai raid - ond fel yr adroddais i aelodau, doeddwn i ddim yn credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau o sylwedd i'n arferion buddsoddi. Roedd ein harferiad o wrando ar gyngor arbenigol, rhoi ystyriaeth i ymateb y farchnad, a bod yn ofalus wedi ein galluogi i wella safon credyd o fewn y rhestrau gwrthbartion cyfredol.
- 7.3** Roedd effaith ymarferol y polisïau hyn fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd defnyddio cyfrifon dirybudd a rhybudd byr ym mhrif sefydliadau'r stryd fawr (Abbey a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian dydd-i-ddydd. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd 3 buddsoddiad tymor sefydlog (£17.5m) gyda banciau safon uchel y DU gan gynnwys £5m a fuddsoddiwyd gyda Barclays Bank am ddwy flynedd. Fe wnaeth dau o'r rhain aeddfedu a'u newid gydag adneuoŷ gyda Clydesdale Bank a Royal Bank of Scotland. Mae'r adneuoŷ hyn wedi'u hailfuddsoddi gyda'r ddau wrthbarti hyn wedi iddynt aeddfedu. Nid oedd raid rhoi cyllid ar adneuoŷ gyda llywodraeth ganolog.

8. ALLANOLI BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU

- 8.1** Yn gyffredinol, anelir at fatsio, dros amser, y ddyled ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn gyda'r Angen Cyllido Cyfalaf ar gyfartaledd. Golyga hynny y buddsoddir balansau referniw a balansau eraill yn allanol ar sail fwy tactegol (yn hytrach nag ad-dalu benthyca allanol). Fel yr eglurwyd mewn blynyddoedd blaenorol gall y dull hwn ymddangos yn ddrud yn erbyn cefndir o raddfa sail isel, ond rydym wedi modelu sawl opsiwn gan gasglu mai allanoli sydd orau. Y rheswm yw'r sensitifrwydd yng nghlandriad y model Cymhorthdal Tai i wahanol lefelau o ddyled, a dyma'r patrwm a ddilynir gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n parhau gyda'u Cronfa Referniw Tai. Golyga hyn y trefnir benthyciadau newydd yn lle'r rhai a ad-delir cyn pryd fel arfer.

Roedd gweithgaredd trysorlys am y flwyddyn flaenorol yn llai cyson â hyn gan greu risg o leihad mewn Cymhorthdal Tai. Adolygwyd y sefyllfa eto yn 2009/10 gan fanteisio ar y graddfeydd benthyca hanesyddol isel hyn yng ngoleuni'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog y dyfodol.

- 8.2** Fel rhan o'r gwaith o gyllido gwariant cyfalaf y llynedd, cymerwyd penderfyniad i allanoli benthyca ymhellach yng ngoleuni'r angen am fenthyca digefnogaeth i gyllido'r gwariant ar y stoc dai o dan y Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru. O ganlyniad i'r penderfyniad cyllido a phenderfyniadau benthyca, y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yw bod benthyca allanol rhyw £2.0m yn fwy na'r ACC. Mae'r rhagdybiaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi ei diweddarau yn gyson â hyn.

9. CYDYMFFURFIO Â PHOLISIÂU A THERFYNAU

- 9.1** Yn ystod y flwyddyn ariannol gweithredodd y Cyngor y tu mewn i derfynau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Pwyllog sy'n ymddangos yn Natganiad Polisi Trysorlys y Cyngor ac yn Natganiad Strategaeth Trysorlys Blynyddol. Gwelir y Dangosyddion Pwyllog perthnasol yn Atodiad 8.

10. EFFAITH AR 2010/11 A'R STRATEGAETH GYLLIDOL

- 10.1** Roedd y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 20010/11 yn seiliedig ar y dybiaeth y buasai'r benthyca allanol yn £2.5m yn fwy na'r hyn gymerwyd. Yr effaith yw lleihau'r hyn a godir ar referniw am llog yn 2010/11; adroddwyd ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith ar hyn fel rhan o'r adroddiad monitro cyllideb referniw Chwarter Un.

- 10.2** Mae lefel y benthyca yn golygu y dylai'r portffolio aros yn ddigon diogel y tu mewn i'r terfynau cydnabyddedig ac nid oes, ar hyn o bryd, unrhyw reswm i gynnig unrhyw newidiadau i Derfynau'r Trysorlys.


11. ARGYMHELLION

- 11.1** Derbyn yr adroddiad.

- 11.2** Anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor a hefyd i'r Pwyllgor Archwilio yn gyson â phenderfyniad y Cyngor.

THE ECONOMY AND INTEREST RATES

Investment Rates 2009-10



2008 was a momentous year when one financial institution after another in America either collapsed or was taken over in the wake of the credit crunch, culminating in the catastrophic failure of Lehman's Brothers in September 2008 which then triggered in October the collapse of the Icelandic banks and the near collapse of three major UK banks. These three banks then needed another round of major Government support in January 2009. This prolonged financial shock to the core of the world's financial systems caused a worldwide recession to gather in pace and intensity during 2009/10 which dragged the UK economy down into its deepest and longest recession for many years.

During the autumn of 2008, the Monetary Policy Committee (MPC) had been preoccupied with the alarming escalation of the rate of inflation propelled by earlier increases in the price of oil, commodities and energy. Inflation peaked in September 2008 on CPI at 5.2%, way over the target rate of 2%. However, the MPC soon had to radically change course as it became ever clearer that inflation would rapidly decline as the credit crunch would plunge world economies into a major recession. An unprecedented cut of 1.5% in Bank Rate in November 2008 was followed by a 1% cut in December 2008 to 2.0% and then further cuts of 0.5% each month until 0.5% was reached in March 2009.

The 2009/10 financial year started with markets still badly disrupted, the real economy suffering from a lack of credit, short to medium term interest rates at record lows and a great deal of anxiety as to how or when recovery would take place.

Darn o adroddiad gan SECTOR, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

Extract from report by SECTOR, Treasury Management Consultants


Quarter	GDP (Q/Q%)
2007 Q1	0.7
2007 Q2	0.6
2007 Q3	0.5
2007 Q4	0.5
2008 Q1	0.6
2008 Q2	-0.1
2008 Q3	-0.7
2008 Q4	-1.8
2009 Q1	-2.5
2009 Q2	-0.6
2009 Q3	-0.2
2009 Q4	0.4

However, even the precipitous slashing of Bank Rate before the beginning of the year was unable to make much impact on the rate at which the economy was falling headlong into recession. Consequently, in March 2009 the MPC resorted to starting a programme of quantitative easing to pump liquidity into the economy in order to stimulate growth, by purchasing gilts and corporate bonds; this had the effect of boosting their prices and therefore reducing yields, so also lowering borrowing costs for both the corporate and public sectors. This programme of quantitative easing was progressively expanded during 2009 until it reached a total of £200bn of purchases in November. For the rest of the financial year, the MPC adopted a cautious approach of leaving further quantitative easing on hold in case growth in the economy needed further support. It was notable that the increase in money supply in the economy generated by this programme brought the credit crunch induced spread between Bank Rate and 3 month LIBID (investment rate that depositors could earn) down from 0.95% at the beginning of the financial year to zero during August 2009. Bank Rate itself remained unchanged at 0.5% all year

The dominant focus in 2009/10 was on quarterly GDP growth figures. As can be seen from the table above and the graph below, the recession in the UK bottomed out in quarter 1 of 2009. There was major disappointment that the end of the

The movement in GDP figures (economic growth) for the United Kingdom, Europe and the United States is illustrated in the graph below.

GDP % quarter / quarter



recession failed to materialise in Q3 2009 and the first figure issued for Q4 2009 was a further huge disappointment at only +0.1%. However, subsequent revisions saw that revised upwards to first +0.3% and then +0.4%.

Darn o adroddiad gan SECTOR, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

Extract from report by SECTOR , Treasury Management Consultants

Inflation has not been a major concern of the MPC during the year as it fell back below the 2% target level from June to November. However, it did spike upwards to reach 3.5% on the back of the unwinding of the temporary cut in VAT to 15% on 1 January 2010. This was not seen as a cause for alarm as this spike would fall out of the inflation index after one year and inflation was forecast by the Bank of England to fall back below target by the end of 2010 and to stay below 2% during 2011 and 2012 due to the large amount of surplus capacity in the economy which would keep wage inflation well damped down.

The year was marked by a tussle between two opposing outlooks in the financial markets. The pessimists expect weak UK growth, or even a double-dip recession, to depress economic activity and hence corporate profits and share prices, so causing gilt prices to rise and long term gilt yields and PwLB borrowing rates to therefore linger at historically low levels for a prolonged period.

On the other hand, the optimists expect a lively return to growth in the UK led by a rebalancing of the economy resulting from increased exports driven by rapid recovery in the US, EU and the rest of the world. This would boost corporate profits and share prices and so depress gilt prices, hence causing long term gilt yields to rise to much higher levels which would then be under pinned by major concerns about the total level of debt issuance by the Government to finance the annual deficit. Accordingly, there have been fluctuations in rates during the year as first one camp and then the other gained ascendancy.

The financial year ended with markets gradually gaining in confidence and optimism that the economy was indeed on the path to recovery, although it appeared to be fragile, and with some residual risk that there could still be a double-dip recession. This optimism was further enhanced by a return to strong economic growth in the US towards the end of 2009. The year also saw a major resurgence in share prices in the US, UK and Europe from a very depressed level in March 2009 on the back of this rise in optimism.


There were concerns in the US and UK that consumers would be reluctant to spend as they would be focusing on reducing their bloated levels of debt and would struggle to pay mortgages when they end their short term discounted rates at a time when switching mortgages to cheaper rates is still not a readily available option. Consumers were also mindful of the increases in taxation coming up and the threat to jobs from impending public sector reductions in expenditure. The UK needs to see strong growth in the EU, its major trading partner, in order for the UK economy to rebalance its economy towards export led growth. However, the continuing reluctance of EU consumers to spend leaves an uncomfortable question mark in this area.

On the positive side, the supply of credit had improved considerably during the year and the credit crunch induced spread between Bank Rate and 3 month LIBID had evaporated. The equity market ended in buoyant mode with shares being at their highest level for nearly two years. The reverse side of this coin though was that gilt prices had fallen and long term yields (and so PwLB long term borrowing rates) were getting near to their peak for the year. The bond markets ended the year with chronic fears about a possible Greek government debt default and commentators were remarking that both Greece and the UK were running similar size annual deficits as a percentage of GDP (expected to be over 12%). However, the UK was in a much stronger position than Greece e.g. due to its much lower level of total debt. However, there were frequent comments from credit rating agencies around a possible threat that the UK government could lose its AAA credit rating if after the

Darn o adroddiad gan SECTOR, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

Extract from report by SECTOR , Treasury Management Consultants

general election there was not a credible plan for how the promised reductions in the annual budget deficit would actually be achieved.



Darn o adroddiad gan SECTOR, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys


Extract from report by SECTOR, Treasury Management Consultants

Crynodeb o Brisiad y Portffolio

Fel ar 31 Mawrth 2009

	Nominal/Prif Swm	Gwerth Teg
ASEDAU ARIANNOL		
Arian (cyfrifon sy'n ennill llog)	£7,574,734	£7,646,079
Adneuon tymor sefydlog	£15,000,000	£15,688,934
YMRWYMIADAU ARIANNOL		
Benthyciad PWLB - Aeddfedu	£97,315,764	£113,131,765
Benthyciad PWLB - Blwydd-dal	£299,396	£451,116
Gwrthbartion		
(1) Cash (interest bearing accounts)	£7,574,734	
Abbey Bank of Scotland		
(2) Fixed Term Deposits	£15,000,000	
Clydesdale Bank Barclays Bank Nationwide Building Society		

Graddfeydd PWLB 2009/10 PWLB rates



PERFFORMIAD PORTFFOLIO BENTHYCA : BORROWING PORTFOLIO PERFORMANCE

Atod/App 4

BENTHYCA NEWYDD	2009/10	2008/09	2007/08	2006/07	NEW BORROWING
Ynys Môn	3.49%	2.51%	4.78%	4.25%	Ynys Môn
Cyfartaledd Cymru	*	4.0%	4.6%	4.3%	Wales Average
Safle yng Nghymru	*	1/10	10/12	=6/16	Welsh Ranking
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	*	3.8%	4.6%	4.3%	Average Wales & England

CYFARTALEDD GRADDFA BENTHYCA (Yn Ystod y Flwyddyn)	2009/10	2008/09	2007/08	2006/07	NEWID/ CHANGE	AVERAGE BORROWING RATE (During Year)
Ynys Môn	5.5%	5.77%	5.84%	6.21%	-0.27%	Ynys Môn
Cyfartaledd Cymru	*	5.69%	5.7%	5.86%	No Change	Wales Average
Safle yng Nghymru (Drud)	*	=7/18	=9/17	=14/17		Welsh Ranking (Expensive)
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	*	5.3%	5.4%	5.68%	-0.1%	Average Wales & England

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd y cyfartaledd graddfa benthycy yn 5.40%.
By year end the average borrowing rate was 5.40%.

Mae graddfa'r portffolio wedi bod yn gymharol uchel. Er bod tystiolaeth bod graddfa'r Cyngor wedi bod yn disgyn yn arafach na'r cyfartaledd oherwydd patrymau benthycy'r gorffennol a'r lleihad mewn dyraniadau benthycy a gefnogir wrth i'r boblogaeth leihau, bu'r raddfa yn gwella yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf gan ddal i fyny yn 2007/08 a pharhau i wella'n dda yn 2008/09.

The portfolio rate has been comparatively high. Although there is evidence that the Council's rate has been falling more slowly than other authorities because of past borrowing patterns and the fall in supported borrowing allocations as the population reduces, the rate has been improving steadily in the last few years, catching up in 2007/08 and continuing to improve well in 2008/09.

Gwybodaeth o Ystadegau CIPFA / Information from CIPFA Statistics

PERFFORMIAD ADNEUON / DEPOSIT PERFORMANCE

Atod/App 6

CYFARTALEDD GRADDDFA ADNEUON	2009/10	2008/09	2007/08	2006/07	AVERAGE DEPOSIT RATE
Ynys Môn	2.04%	5.25%	5.69%	4.80%	Ynys Môn
Cyfartaledd Cymru	*	5.23%	5.8%	4.90%	Wales Average
Safle yng Nghymru	*	=6/18	=9/17	9/17	Welsh Ranking
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	*	4.9%	5.2%	4.86%	Average Wales & England
Cyfradd Sail (Cyfartaledd)	*	3.61%	5.54%	4.81%	Base Rate (Average)
LIBID 7 diwrnod (cyfartaledd)	*	3.89%	5.58%	4.84%	7 day LIBID (average)
Cyfartaledd Grwp Mainnodi	*	5.02%	5.79%	4.88%	Benchmarking Group Average
Mainnodi Holl Awdurdodau	*	5.26%	5.78%	4.83%	Benchmarking All Authorities Average

Dylid nodi nad yw pob cyngor yn defnyddio'r un dull o glandro'r cyfartaledd graddfa llog a'i fod yn bosibl bod rhai cyngorau yn nodi graddfeydd uwch na'r cyfartaledd "dyddiol" sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor hwn. Mae'r ffigurau cymharol uchod yn cynnwys buddsoddiadau a weinyddir gan reolwyr allanol.

It should be noted that not all authorities use the same method of calculating average interest rates and that it is possible that some authorities record a higher rate than the "daily" average used by this Council. The above comparative figures include externally managed investments.

Gwybodaeth o Ystadegau CIPFA ac o'r marchnadoedd ariannol a Mainnodi IPF / Information from CIPFA Statistics, Market information and IPF Benchmarking

Rhif	DANGOSYDDION PWYLLOG	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12
	DANGOSYDDION DYLED ALLANOL	£'000	£'000	£'000	£'000
10	Uchafswm Awdurdodedig dyled allanol - benthycyca ymrwymiaidau tymor hir eraill CYFANSWM	110,000 2,000	110,000 2,000	110,000 2,000	115,000 2,000
		112,000	112,000	112,000	117,000
11	Ffin ymarferol benthycyca ymrwymiaidau tymor hir eraill CYFANSWM	105,000 2,000	105,000 2,000	105,000 2,000	110,000 2,000
		107,000	107,000	107,000	112,000
<input type="checkbox"/>	DANGOSYDDION RHEOLI'R TRYSORLYS	£'000	£'000	£'000	
14	Terfyn uchaf buddsoddiadau graddfa sefydlog wedi ei gyfleu fel Prifswm net benthycyca / buddsoddi graddfa sefydlog	100,000	100,000	100,000	100,000
15	Terfyn uchaf buddsoddiadau graddfa amrywiol wedi ei gyfleu fel Prifswm net benthycyca / buddsoddi graddfa amrywiol	20,000	20,000	20,000	20,000
17	Terfyn uchaf cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod • at 2011/12 • at 2013/14 o fewn yr uchod	15,000 8,000	15,000 8,000	15,000 8,000	15,000 8,000
	Strwythur aeddfedu y portffolio benthycyca graddfa sefydlog yn 2008/09	terfyn uchaf		terfyn isaf	
	dan 12 mis	20%		0%	
	12 mis ac o fewn 24 mis	20%		0%	
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%		0%	
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%		0%	
	10 mlynedd ac ymlaen	100%		0%	